

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Hybrid a gynhaliwyd ar 7 Mai, 2025.

Mae agenda'r Cyngor ar [gael yma](#).

Mae recordiad y Cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd Elliot Penn (Maer); Y Cynghorwyr Julie Aviet, Anne Asbrey, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci-Williams, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Edward Williams, Margaret Wilkinson, Steffan William a Mark Wilson.

1. CYHOEDDIAD –

Cyn dechrau busnes, tynnodd y Maer sylw at nifer o faterion cadw tŷ a gwnaeth y datganiad canlynol: “A gaf i atgoffa pawb a oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â’i recordio dros y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i’w wyllo yn y dyfodol”.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorwyr Christine Cave, Russell Godfrey a Howard Hamilton.

3. DATGANIAD O FUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

4. ETHOL MAER –

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Belinda Loveluck-Edwards ac eiliwyd gan y Cynghorydd Carys Stallard y dylid ethol y Cynghorydd Naomi Marshallsea yn Faer.

PENDERFYNWYD – Y dylid ethol y Cynghorydd Naomi Marshallsea yn Faer y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

Gwnaeth y Maer newydd ei phenodi y Datganiad Statudol o Dderbyn Swydd a'i gyflwyno i'r Prif Weithredwr, cafodd ei harwisgo gan y Maer sy'n gadael â Chadwyn y Swydd a chymerodd y Gadair.

5. PENODI DIRPRWY FAER –

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Joanna Protheroe ac eiliwyd gan y Cynghorydd Helen Payne y dylid ethol y Cynghorydd Carys Stallard yn Ddirprwy Faer.

PENDERFYNWYD – Y dylid penodi'r Cynghorydd Carys Stallard yn Ddirprwy Faer y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

Gwnaeth y Dirprwy Faer newydd ei benodi a'i gyflwyno i'r Prif Weithredwr y Datganiad Statudol o Dderbyn Swydd, cafodd ei arwisgo â Chadwyn y Swydd a chymerodd y Gadair.

6. CYFEIRIAD Y MAER –

Rhannodd y Maer pan fydd pobl yn gofyn iddi o ble roedd hi, roedd hi'n falch o ddweud ei bod hi'n dod o'r Barri. Roedd hi wedi byw mewn lleoedd eraill, gan gynnwys Llundain, lle treuliodd dros 10 mlynedd fel athrawes, ond Bro Morgannwg oedd ei chartref. Pan oedd hi yn Llundain, cyfarfu â bachgen o'r Barri a'i berswadio y dylent roi gwreiddiau yma. Roedd hi'n gwybod ei bod wedi gwneud y penderfyniad cywir pan ddechreuodd weithio gyda'i chymuned leol i adfywio parc oedd wedi'i esgeuluso. Mae sefydlu Cyfeillion Chickenwood a gweld egni pobl sydd eisiau dod at ei gilydd a gwneud rhywbeth y gallent i gyd fod yn falch ohono wedi dangos cymuned ar ei gorau. Y Fro oedd y lle gorau yn y byd a'i chartref am byth, ac roedd hi mor angerddol am helpu i'w wneud y lle gorau i bawb. Roedd cymaint i'w garu yma, o un o goedwigoedd bach cyntaf Cymru ym Mhen-coedtre, theatr leiaf y DU yn y Barri i Bier Penarth, teithiau cerdded diddiwedd yn Arfordir Treftadaeth Morgannwg ac ewyllys cryf y bobl. Roedd hi eisiau treulio'r flwyddyn yn dathlu'r da y gellir ei gael yma.

Roedd hi'n sefyll am etholiad i gynrychioli pob preswilydd lle roedd hi'n byw, gan wybod bod gan bob unigolyn lais cyfartal a nawr roedd hi'n gobeithio gwneud yr un peth ar draws y Fro am y flwyddyn. Fel athrawes, roedd hi'n sicrhau bod pob plentyn yn cael glywed, ei barchu a'i gefnogi. Roedd hi'n addasu yn ôl y plentyn yn ogystal â'u teuluoedd ac roedd yn credu y gellid defnyddio'r sgiliau hynny wrth gamu i rôl y Maer. Fel addysgu, byddai'n sicrhau ei bod hi'n gweithio'n galed ac yn ddiwyd. Diolchodd i'w rhieni am ddysgu pwysigrwydd cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed a bob amser yn rhoi'r dewrder iddi sefyll dros yr hyn yr oedd hi'n credu oedd yn iawn, i'w chwaer am ganiatáu iddi gredu ynddi ei hun pan fydd hi'n amau ei hun. Fel mam gyntaf plant ifanc a benodwyd yn Faer y Fro, roedd hi'n sefyll dros yr holl fenywod wrth iddi ymgymryd â'r rôl hon, ac felly i'w phlant a'i llenwodd â chariad a hwyl bob dydd, ei gŵr, a nawr consort, David, am bopeth, a'i ffrindiau Belle a Carys am ei henwebu a'i heilio. Ei haddewid oedd y byddai'n parhau i roi'r balchder a'r egni hwnnw ym mhopeth a wnaeth i'r Fro.

7. PLEIDLAIS O DDIOLCH I'R MAER SY'N YMDDEOL AC ANERCHIAD Y MAER SY'N YMDDEOL –

Rhoddodd y Maer ddiolch i'r cyn-Faer, a nododd eu bod yn esgidiau mawr i'w llenwi, a'i bod yn teimlo'n anrhydedd o fod yn Ddirprwy Faer fel cydweithiwr a ffrind, gan adlewyrchu sut roedd y Cynghorydd Penn bob amser wedi rhoi ei bopeth, bob amser yn garedig ac yn ostyngedig gyda phob aelod o staff, aelod o'r cyhoedd a chyd-Aelod, a oedd pawb yn gwybod y gallai fod yn heriol ar adegau. Dywedodd ei fod wedi gwneud yn siŵr ei fod bob amser wedi rhannu gyda thegwch, hiwmor ac amynedd, ac roedd wedi gwneud y Siambr yn lle mwy hwyliog a hamddenol i fod.

Siaradodd y Cynghorydd Penn am yr anrhydedd wych yr oedd wedi bod yn cynrychioli'r Cyngor mewn 50 a mwy o ddigwyddiadau dros y flwyddyn, gan gynnwys anrhydeddu cyn-filwyr mewn digwyddiadau Diwrnod y Cofio a phen-blwydd D-Day yn 80 oed, cyflwyno statws dynion rhydd a menywod rhydd i'r RNLI ym Mro Morgannwg, siarad â phlant ysgol am rôl Cynghorwyr, cymryd rhan yng ngorymdaith Pride y Bont-faen gyda'i deulu, y croeso hynod gynnes gan gymuned Malayali a mwynhau eu bwyd anhygoel, cyfeillgarwch a chwerthin Grŵp Cyn-filwyr y Barri a gwerthfawrogi holl ddoniau Côr Meibion y Barri, Band Pres Bro Morgannwg ochr yn ochr â llawer o artistiaid ac unigolion lleol eraill.

Diolch ymhellach i'r holl grwpiau cymunedol a wnaeth waith mor hanfodol ym Mro Morgannwg, gan gynnwys ffrindiau a chymdogion Pioneer Hall, Cymdeithas Flodau'r Barri a chymaint mwy. Siaradodd am ei ymweliad diwethaf, â Thŷ Hafan, a nododd ei fod yn lle llawn llawenydd a chwerthin lle gwnaeth brwdfrydedd a gofal y staff gymaint o wahaniaeth i fywydau'r plant a ddaeth drwy'u drysau, gan helpu plant a'u teuluoedd i fyw'n dda am ba mor hir oedd eu harhosiad.

Dywedodd y Cynghorydd Penn mai'r rhan bwysig arall o'r rôl oedd y ffurfioldebau yn y Siambr, ac roedd yn credu bod cadeirio'r Cyngor Llawn wedi bod yn rhyfedd o bleserus, addysgiadol iawn ac ar adegau heriol ac ni ellid cyflawni hyn heb arweiniad a chefnogaeth a throsglwyddwyd diolch i'r holl dîm yn y Gwasanaethau Democrataidd ond yn enwedig i Karen Bowen, ac i Charlotte Western am drefnu popeth trwy gydol y flwyddyn ac i Mike Tipples am ei amynedd. Diolch hefyd i'r Cynghorydd Naomi Marshallsea am ei chymorth a'i chefnogaeth yn ystod cyfarfodydd y Cyngor Llawn a dymunodd y gorau iddi ar gyfer y flwyddyn nesaf fel Maer.

Rhannodd sut eleni roedd y Cyngor wedi derbyn bendithion gan wahanol arweinwyr crefyddol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, a throsglwyddodd ddiolch i'r Parchedig Jimmy Young, Rabbi Michael Rose, Imam Muhammad Ibrahim, y Parchedig Edwin Counsell, a'r gweinydd Dyneiddiwr Lorraine Barrett am eu cyfraniadau gwerthfawr ac ysgogol, ac adlewyrchodd ei fod yn gobeithio bod yr ychwanegiad hwn at y traddodiad o weddiâu cyn cyfarfodydd wedi bod yn newid bach ond arwyddocaol a chadarnhaol tuag at gynrychioli pob etholwr fel roedd amrywiaeth yn gwneud ein bywydau i gyd yn gyfoethocach mewn cymaint o ffyrdd ac yn sail i ddealltwriaeth a gwerthoedd cymunedol

Yn y diwedd, rhannodd y Cynghorydd Penn ddiolch o galon i'w bartner Jo, heb ei gymorth a'i gefnogaeth y flwyddyn ddiwethaf fel Maer ni fyddai wedi bod yn bosibl.

8. I DDERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y MAER NEU'R PRIF WEITHREDWR –

Cyhoeddodd y Maer fod digwyddiadau'n digwydd ledled y wlad drwy gydol yr wythnos hon i goffáu 80 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (VE), ac yfory – dydd Iau am 9.00am yng nghyntedd y Swyddfa Ddinesig, y byddai'n ymuno â'r Arweinydd, y Prif Weithredwr a chynrychiolwyr o'r Llenng Brydeinig Frenhinol i godi baner Buddugoliaeth yn Ewrop arbennig i goffáu'r diwrnod pwysig hwn.

Byddai'r Arweinydd, y Prif Weithredwr a'r Maer hefyd yn mynychu gwasanaeth gosod torchau'r Llenng Brydeinig Frenhinol am 11am yn Neuadd Goffa'r Barri. Roedd croeso hefyd i gydweithwyr fynychu'r gwasanaeth hwn i dalu eu parch.

Yn ddiweddarach yfory, byddai pob cydweithiwr mewn adeiladau cyhoeddus a thu hwnt yn arsylwi tawelwch cenedlaethol dwy funud am hanner dydd. Byddai staff a chydweithwyr ym mhob un o swyddfeydd Cyngor Bro Morganwg yn sicr o ymuno â'r foment hon o fyfyrion a chofio, a byddai rhai'n ymgynnull yng nghyntedd y Swyddfeydd Ddinesig i arsylwi'r tawelwch hwn. Gwahoddwyd aelodau i ymuno os dymunt.

9. TREFNIADAU GWEITHREDOL – AELODAETH Y CABINET A PHORTFFOLIOS (PW) –

Adran 4.10.1(f) o'r Cyfansoddiad Rheolau Gweithdrefn y Cyngor – "Cyfarfod Blyneddol y Cyngor" yn darparu y byddai'r Arweinydd yn dweud wrth y Cyfarfod Blyneddol enwau'r Cynghorwyr a ddewisir i fod yn Ddirprwy Arweinydd a nifer ac enwau'r Aelodau i'w penodi i'r Cabinet a'u portffolios / cyfrifoldebau a'r Aelodau i'w dynodi'n "Hyrwyddwyr" y Cyngor.

Adran 5.2 o'r Cyfansoddiad "Ffur a Chyfansoddiad y Weithrediaeth" y byddai'r Cabinet yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac o leiaf ddau Gynghorydd arall, ond dim mwy na naw, a benodir i'r Cabinet gan yr Arweinydd.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, cynghorodd yr Arweinydd y byddai Portffolios y Cabinet yn aros yr un fath, fodd bynnag, manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i hysbysu'r Cyngor fod y Cynghorydd Gwyn John wedi camu i lawr fel Arweinydd Annibynwyr Llantwit First gyda'r Cynghorydd Eddie Williams bellach yn cymryd y swydd honno. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'r Cynghorydd John yn parhau i fod yn aelod o'r Cabinet a'i longyfarch ar ei 25 mlynedd o wasanaeth ar y Cyngor.

Tynnodd yr Arweinydd sylw hefyd at y "Swyddi Hyrwyddwr" canlynol a fyddai'n parhau i gael eu cyflawni gan y deiliad swydd a nodwyd:

- Hyrwyddwr Craffu – Cadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu;

- Hyrwyddwr Datblygu Aelodau – Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi, yn unol â chyngor yr Arweinydd, y byddai'r Cynghorydd B.E. Brooks yn Ddirprwy Arweinydd a bod Aelodau'r Cabinet, ynghyd â manylion eu portffolios fel y'u rhestrir isod a'r rolau "Hyrwyddwr" dynodedig fel y'u nodir yn y Wybodaeth Atodol i'r adroddiad, yn cael eu nodi:

- Y Cynghorydd L. Burnett – Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau
- Y Cynghorydd B.E. Brooks – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy
- Y Cynghorydd R.M. Birch – Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg
- Y Cynghorydd G. John – Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles
- Y Cynghorydd S. Sivagnanam – Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol
- Y Cynghorydd S.D. Perkes – Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid
- Y Cynghorydd E. Williams – Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Y Cynghorydd M.R. Wilson – Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu.

(2) Y dylai Cadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd barhau i gael eu dynodi'n Hyrwyddwyr Craffu a Datblygu Aelodau'r Cyngor yn y drefn honno.

(3) Y dylid nodi taliadau Cyflogau Uwch y Cyngor ar gyfer 2025/26 fel y nodir ym mharagraff 2.1 o'r adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Er mwyn cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor.

10. PWYLLGORAU CRAFFU: PENODI, AELODAETH, CYLCH GORCHWYL A DYRANNU SWYDDI'R CADEIRYDD (PW) –

Roedd gofyniad yn bodoli, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ynghylch dyrannu swyddi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu. Yn ei hanfod, roedd gan unrhyw Grŵp, neu Grwpiau, a gynrychiolir ar y Cabinet hawl (pan gânt eu cymryd gyda'i gilydd) i gyfran o swyddi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu sy'n cyfateb i'w cyfanswm nifer o seddi (pan gânt eu cymryd gyda'i gilydd) ar y Cyngor. Ar ôl i'r cyfrifiad hwn gael ei wneud, mae'r swyddi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu sy'n weddill yn dod yn "eiddo" i'r Grwpiau nad ydynt yn y Cabinet (eto, i'w dyrannu'n gymesur â chyfanswm nifer y seddi a ddelir gan y Grwpiau priodol ar y Cyngor).

Roedd Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi Cylch Gorchwyl, rôl gyffredinol a swyddogaethau penodol y Pwyllgorau Craffu, ac roedd copi ohono wedi'i atodi yn Atodiad B i'r adroddiad. Roedd aelodaeth y Pwyllgorau Craffu wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod fel Gwybodaeth Atodol yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Arweinwyr Grŵp.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd yr Arweinydd sylw at ddyrannu Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn unol â chyngor Arweinwyr y Grŵp ac fel y nodwyd yn y wybodaeth anodal a oedd wedi'i dosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Nododd yr Arweinydd ymhellach fod y Cynghorydd K.P. Mahoney wedi cynghori na fyddai'n cymryd ei swydd ar Bwyllgor Craffu ac, yn dilyn trafodaethau, y byddai'r Cynghorydd S. Campbell yn cymryd y swydd wag ar y Pwyllgor Craffu Adnoddau, y byddai'r Cynghorydd I. Perry yn cymryd y swydd wag ar y Pwyllgor Craffu Lleoedd a'r Cynghorydd M.J.G. Morgan yn cymryd swydd ar y Pwyllgor Craffu Byw'n Dda.

PENDERFYNWYD –

(1) Y BOD y Pwyllgorau Craffu, ynghyd â'u Haelodaeth a'u Cylch Gorchwyl fel y'u nodir yn Atodiad B a'r Wybodaeth Atodol i'r adroddiad, yn cael eu penodi ar gyfer y flwyddyn Ddinesig ganlynol, gan nodi y byddai'r Cynghorydd S. Campbell yn cymryd y swydd wag ar y Pwyllgor Craffu Adnoddau, y Cynghorydd I. Perry yn cymryd y swydd wag ar y Pwyllgor Craffu Lleoedd a'r Cynghorydd M.J.G. Morgan yn cymryd swydd ar y Pwyllgor Craffu Byw'n Dda, gyda'r Pwyllgor Craffu Byw'n Dda yn cario swydd wag.

(2) Y BOD dyraniad Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu penodol, fel y'u hysbysir gan yr Arweinwyr Grŵp perthnasol fel y nodir ym mharagraffau 2.1 i 2.3 o'r adroddiad ac yn y Wybodaeth Atodol, fel y dangosir isod, yn cael ei nodi:

- Pwyllgor Craffu Dechrau'n Dda – y Cynghorydd R.R. Thomas
- Pwyllgor Craffu Byw'n Dda – y Cynghorydd A.M. Collins
- Pwyllgor Craffu Lleoedd – y Cynghorydd S. Lloyd-Selby
- Pwyllgor Craffu Adnoddau – y Cynghorydd J. Protheroe.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

11. PWYLLGORAU LLED-FARNWROL, PWYLLGORAU A CHYRFF ERAILL: PENODI, CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH (PW) –

Atgoffwyd yr Aelodau gan yr adroddiad o'r angen i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth a ddaeth i rym ar 5 Mai, 2017 sy'n llywodraethu maint a chyfansoddiad Pwyllgorau Cynllunio.

Mae Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 a ddaeth ag Adran 39 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 i rym ac a roddodd dehongliad manwl ohoni, i'r graddau yr oedd yn ymwneud â maint a chyfansoddiad Pwyllgorau sy'n cyflawni swyddogaethau.

Wedi'i nodi yn Atodiad A i'r adroddiad roedd y cyfrifiad a oedd yn ymwneud â'r gofyniad cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer pwyllgorau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1989. Roedd manylion aelodaeth y Pwyllgorau Lled-farnwrol, y Pwyllgorau a Chyrff Eraill wedi'u lledaenu cyn y cyfarfod fel Gwybodaeth Atodol ar sail gwybodaeth a roddwyd gan Arweinwyr Grwpiau. Eglurwyd y byddai'r Cynghorydd Marianne Cowpe yn cymryd lle'r Cynghorydd Mark Hooper ar Bwyllgor Ystadau Deddf Eglwys Cymru, ac na fyddai'r Cynghorydd Jayne Norman yn cymryd ei sedd ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

PENDERFYNWYD –

- (1) Y DYLAI'r Pwyllgorau Lled-farnwrol, y Pwyllgorau a Chyrff Eraill, ynghyd â'u Cylch Gorchwyl (Atodiad B i'r adroddiad) a'u Haelodaeth, fel y nodir yn yr Wybodaeth Atodol a ledaenwyd cyn y cyfarfod ac a gyflwynwyd gyda'r adroddiad, yn cael eu penodi ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig sy'n dilyn, yn amodol ar nodi y byddai'r Cynghorydd C.M. Cowpe yn cymryd lle'r Cynghorydd M.J. Hooper ar Bwyllgor Ystad Deddf Eglwys Cymru, ac na fyddai'r Cynghorydd J.M. Norman yn cymryd ei sedd ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- (2) CYTUNO, o ystyried yr angen i gydymffurfio â maint a chyfansoddiad Rheoliadau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 wrth bennu maint a chyfansoddiad y Pwyllgor Cynllunio, ar yr aelodaeth fel yr amlinellir ym mharagraffau 2.3 i 2.5 yr adroddiad.
- (3) Y DYLAI'r Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg fod yn gynrychiolydd ar Gydbwyllgor Gwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De.
- (4) PENODI'R Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol a Chadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwarchod y Cyhoedd yn gynrychiolwyr ar y Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir, gyda'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu ac Is-gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwarchod y Cyhoedd yn cael eu penodi'n eilyddion.
- (5) Y BYDD y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau yn cynrychioli'r Cyngor fel Cyfranddaliwr y Cwmni ac a fydd yn cael cyngor gan Banel Cynghori Cyfranddalwyr, sy'n cynnwys Swyddogion y Cyngor ar Gwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol "The Big Fresh Catering Company".

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-5) Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

12. DYDDIADAU CYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR (PW) –

PENDERFYNWYD – nodi y cynhelir cyfarfodydd arferol y Cyngor ar y dyddiadau a ganlyn:

- 14 Gorffennaf, 2025
- 29 Medi, 2025
- 1 Rhagfyr, 2025
- 3 Mawrth, 2026
- 28 Ebrill, 2026.

13. ETHOL CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU (PW) –

Y Pwyllgorau y byddai Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn cael eu penodi ar eu cyfer yn y Cyfarfod Blynnyddol oedd yr holl gyrrff yn y tabl cydbwysedd gwleidyddol (y gellir eu gweld yn Eitemau 7 ac 8 ar yr Agenda), ac eithrio'r rhai a ddangosir yn Eitem 10 ar yr Agenda lle mae darpariaethau deddfwriaethol, neu drefniadau penodol amgen, yn berthnasol ar hyn o bryd.

Nododd y Cynghorydd K.P. Mahoney y byddai'n hoffi pleidleisio yn erbyn pob penodiad.

Enwebwyd y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan y Cynghorydd L. Burnett, a'r Cynghorydd B.E. Brooks. Enwebwyd y Cynghorydd G.D.D. Carroll gan y Cynghorydd J.E. Charles a'r Cynghorydd W.A. Hennessy.

Yn dilyn cytundeb gan Arweinwyr y Grŵp i bleidleisio gyda'i gilydd, etholwyd y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gan nodi bod y Cynghorwyr Cave, Godfrey a Hamilton yn absennol o'r cyfarfod yn ystod y bleidlais.

PENDERFYNWYD –

(1) Penodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau fel y nodir isod ar gyfer y flwyddyn ddinesig i ddod:

<u>Apeliadau:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd I.R. Buckley
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby
<u>Cyswllt Cymunedol:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd R.M. Birch
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd M.R. Wilson
<u>Gwasanaethau Democrataidd:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd N.C. Thomas
<u>Adolygu Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd H.C. Hamilton
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd J. Lynch-Wilson
<u>Ymddeol yn Gynnar/ Dileu Swyddi:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd P. Drake
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd H.C. Hamilton
<u>Grŵp Cynghori Arfordir Treftadaeth Morgannwg:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd C. Stallard
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd Emma Goodjohn

<u>Ymchwilio:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd H.M. Payne Y Cynghorydd C. Iannucci-Williams
<u>Cynllunio:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd N.C. Thomas Y Cynghorydd M.R. Wilson
<u>Trwyddedu Diogelwch Cyhoeddus:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd P. Drake Y Cynghorydd J.M. Norman
<u>Trwyddedu Statudol:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd P. Drake Y Cynghorydd J.M. Norman
<u>Penodiad Uwch Reoli:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Arweinydd (Y Cynghorydd L. Burnett) Dirprwy Arweinydd (Y Cynghorydd B.E. Brooks)
<u>Ymddiriedolaeth:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd H.C. Hamilton Y Cynghorydd M.R. Wilson
<u>Cydbwyllgor Cyswllt Y Sector Gwirfoddol:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd: Is-Gadeirydd- Anrhydeddus	Y Cynghorydd R.M. Birch Y Cynghorydd I.R. Buckley I'w penodi o blith y 7 cynrychiolydd o'r Sectorau Gwirfoddol ac Iechyd
<u>Deddf Ystâd yr Eglwys Yng Nghymru:</u>	Cadeirydd: Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd M.R. Wilson Y Cynghorydd P. Drake

(2) YR ymdrinnir â'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau sy'n weddill fel y nodir yn yr adroddiad, ar yr amod y nodir bod y Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Er mwyn cydymffurfio â'r trefniadau penodol sy'n gymwys ar hyn o bryd neu ddeddfwriaeth berthnasol.